# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lleoliad:
**Canolfan y Ffermwyr Ifanc, Sioe Frenhinol Cymru**

Dyddiad:
**Dydd Mawrth, 19 Gorffennaf 2011**

Amser:
**11:15**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

**Virginia Hawkins**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8544
E&S.comm@wales.gov.uk

**Catherine Hunt**
Dirprwy Glerc y Pwyllgor
029 2089 8026
E&S.comm@wales.gov.uk

## Agenda

### 1. Ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2. Sesiwn Graffu gyda'r Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd (Tudalennau 1 - 4)

Alun Davies AC, Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd
Rory O'Sullivan, Cyfarwyddwr Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru

Eitem 2

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

## E&S(4)-03-11 papur 1

**PAPUR gan y Dirprwy Weinidog dros Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd**

1. Mae Llywodraeth newydd Cymru wedi symud amaethyddiaeth a bwyd i brif ffrwd polisi economaidd, ac mae wedi cydnabod cyfraniad amaethyddiaeth a bwyd i allbwn economaidd Cymru, yn enwedig yng nghyd-destun yr economi wledig. Mae cynnal y diwydiant amaethyddiaeth yn golygu ei drin ar yr un sail â sectorau allweddol eraill yn yr economi – elw a ffyniant yw'r ffordd ymlaen i'r diwydiant. Bydd diwydiant llwyddiannus hefyd yn cyflenwi bwyd i bob rhan o Gymru a thu hwnt, yn cynnig sefydlogrwydd cymdeithasol yng Nghymru wledig, yn gwneud cyfraniad amlwg o ran diogelu yr ardaloedd gwledig sydd mor ddeniadol i'n cymunedau gwledig ac ymwelwyr â Chymru, ac yn cynnig mantais o ran cynnal ein diwylliant a'n hiaith.
2. Yn fy mhapur rwyf wedi amlinellu fy mlaenoriaethau ar gyfer tymor y Cynulliad hwn ac wedi cynnwys, lle bo'n briodol, fy ymateb i sylwadau'r Is-bwyllgor Datblygu Materion Gwledig yn ei adroddiad etifeddiaeth.

**<u>Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin</u>**

3. Mae PAC cryf yn hanfodol i ddyfodol y Gymru wledig. Mae ar y diwydiant ffermio angen y PAC, sy'n cyfrif am 80 i 90% o incwm ffermydd yng Nghymru. Wrth gwrs, mae'n rhaid i ni weithio tuag at ddiwydiant sy'n llawer llai dibynnol ar gymorthdaliadau, ac mae llawer o'r mecanweithiau cymorth sydd eisoes ar waith drwy'r rhaglen Datblygu Gwledig yn gwneud hynny. Byddai newid y PAC yn sylweddol yn ergyd drom i ffermwyr ac yn peryglu busnesau. Rwy'n credu'n gryf y dylid newid y PAC yn raddol, neu'i esblygu. Rhaid i'r PAC newid gan fod y byd wedi newid, mae ffermio wedi newid ac mae'r heriau y mae cymdeithas gyfan yn eu hwynebu wedi newid. Mae'n briodol felly i ddiwygio'r PAC, ond gan sicrhau y gwneir y newidiadau angenrheidiol heb danseilio a pheryglu dyfodol y Gymru wledig.

4. Yn ogystal, nid yw'n realistig disgwyl i reolwyr tir wneud gwelliannau amgylcheddol a fydd yn costio arian iddyn nhw. Nid yw'n ormod i ofyn am ffermio mewn ffordd amgylcheddol gyfrifol, a dyna pam bod trawsgydymffurfio'n un o amodau'r Taliad Sengl. Mae'r heriau amgylcheddol yn cynyddu gyda'r angen i wella ansawdd dŵr, lleihau llifogydd, lleihau allyriadau carbon deuocsid ac ocsid nitraidd, a dal carbon yn y pridd. Ni fydd modd i ni symud ymlaen nes i ni allu gweithio gyda ffermwyr i gymryd y camau angenrheidiol, ac er mwyn gwneud hynny mae'n rhaid rhoi iawndal iddynt am y costau sydd weithiau'n sylweddol.

5. Nid oes modd cynnal yr economi wledig yn yr hirdymor drwy fuddsoddi mewn cynhyrchu bwyd neu gefnogi rheolaeth sensitif ar gefn gwlad yn unig. Mae'n rhaid i ni ystyried sut gallwn ni gefnogi'r economi wledig ehangach y mae'r sector ffermio'n rhan ohoni. Nid yw ffermio'n ddiwydiant annibynnol. Mae cynnydd yng nghynnyrch ffermio yn cyfrannu at gynnydd llawer mwy yng nghynnyrch prynwyr lleol a defnyddwyr y cynnyrch hwnnw. Mae cysylltiadau arbennig o gryf yn bodoli gyda phrosesu bwyd, gwestai ac arlwyo, ac mae gan y sectorau hyn gysylltiadau pellach gyda gweddill yr economi wledig. Un mater allweddol i'w ystyried yw sut i wneud y gorau o brosesu gwerth ychwanegol ar gyfer cynhyrchion cynradd a dod hyd i ddefnydd newydd ar gyfer cynhyrchion a fyddai'n wastraff fel arall. Mae Colofn 2 y PAC, sef y Rhaglen Datblygu Gwledig, yn darparu ar gyfer ymyriadau o'r fath, a byddai'r economi wledig yn cael trafferth datblygu hebddynt. Mae economi wledig fywiog yn denu buddsoddiad o'r tu allan ac yn annog pobl i ddod i fyw i'r ardal, sy'n cyfrannu at gryfder a chynaliadwyedd cymunedau gwledig.

6. Rwyf wedi amlinellu'r achos dros PAC cryf yng Nghymru yn y dyfodol, ac ar sail hyn byddaf yn cymryd rhan mewn trafodaethau yn y DU a chyda'r Comisiwn Ewropeaidd.

**<u>Adolygiad Biwrocratiaeth/Adroddiad Macdonald – Gweithio'n Glyfrach</u>**

7. Rwy'n ymrwymedig i leihau biwrocratiaeth a sicrhau rheoleiddio gwell yn y diwydiant ffermio yng Nghymru, gan adlewyrchu'r gwaith sydd eisoes wedi'i gyflawni ar leihau biwrocratiaeth ac adroddiad Macdonald sydd newydd ei gyhoeddi yn Lloegr.

8. Bydd fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda'u swyddogion cyfatebol yn Defra i sicrhau bod ffermwyr Cymru'n elwa ar newidiadau i reoleiddio yn sgil argymhellion Adroddiad Macdonald y mae Llywodraeth y DU wedi'u derbyn.

9. Rwy'n croesawu awgrym yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig y dylai'r Pwyllgor newydd asesu hyn.

**<u>Glastir</u>**

10. Rwy'n gwbl ymrwymedig i fwrw ymlaen â Glastir. Diben allweddol Glastir yw cynnal ac adeiladu ar y manteision amgylcheddol a geir drwy fuddsoddiad sylweddol gan ffermwyr a'r Llywodraeth yn ein cynlluniau amaeth-amgylcheddol cyfredol. Bydd estyniadau tan ddiwedd 2013 i ddeiliaid cytundebau Tir Gofal a Tir Cynnal yn helpu i drosglwyddo'n rhwydd i Glastir.

11. Roedd ein cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn briodol adeg eu llunio ond nid ydynt bellach yn diwallu heriau cymhleth y newid yn yr hinsawdd a newidiadau deddfwriaethol (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

a’r Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac Adar). Hefyd, roedd archwiliad iechyd y PAC yn golygu nad oedd fawr o ddewis i Gymru ond gwneud newidiadau a datblygu cynllun newydd. Glastir yw’r newid hwnnw a bydd tua £90 miliwn y flwyddyn ar gael i ffermwyr Cymru, a fydd yn eu tro yn cymryd nifer o gamau amaethyddol ar ran y trethdalwr i fynd i’r afael â materion fel rheoli carbon, pridd, dŵr a chynefinoedd, yn ogystal â bioamrywiaeth. Glastir yw’r brif ffordd i ni osgoi torri’r Cyfarwyddebau Fframwaith Dŵr a Chynefinoedd. Nid oedd y cynlluniau blaenorol yn ein diogelu’n ddigonol ar y materion pwysig hyn.

12. Er bod yr Adroddiad Etifeddiaeth yn nodi mai siomedig oedd y nifer o geisiadau a gafwyd i ddechrau i Elfen Cymru Gyfan Glastir (roedd 2940 o geisiadau yng nghylch cyntaf Elfen Cymru Gyfan Glastir yn dechrau yn 2012, ac rydym wedi derbyn tua 8,000 o ddatganiadau o ddiddordeb ar gyfer contractau yn dechrau yn 2013). Mae nifer y ceisiadau yn y flwyddyn gyntaf yn hawdd yn uwch na nifer y ceisiadau blynyddol i’r cynlluniau amaeth-amgylcheddol blynyddol blaenorol yng Nghymru. Hefyd, mae dros 300 o gymdeithasau pori tir comin wedi nodi diddordeb mewn ymuno â Glastir eleni. Dim ond 6 comin a gofrestrwyd ar gyfer Tir Gofal yn ystod y cynllun hwnnw. Mae Glastir yn newid sylweddol ar y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a ffermwyr. Mae wastad yn cymryd amser i ymgyfarwyddo â newid, ond mae’r diddordeb y mae ffermwyr yn ei ddangos yn Glastir yn awgrymu bod ganddynt ddealltwriaeth lawer gwell o’r hyn y mae’r cynllun yn ei gynnig ac y bydd yn ei gyflawni.

**<u>Costau hylendid cig</u>**

13. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i ymgynghoriad yr ASB ym mis Ionawr 2011. Mae canlyniadau’r ymgynghoriad bellach wedi’u cyhoeddi ac mae Bwrdd yr ASB wedi gwneud penderfyniad ar y diffiniad newydd ar gyfer lladd-dai bach, felly bydd cyfran uwch o ladd-dai bach yng Nghymru yn cael rhyw fath o gymorth.

14. Yn ystod cyfarfod diweddar gyda’r Arglwydd Rooker, Cadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd, cymerais y cyfle i sicrhau bod yr ASB yn parhau i fod yn ymwybodol o’i rhwymedigaethau statudol i ystyried buddiannau lladd-dai bach, a’r camau y mae’n rhaid iddi eu cymryd yn ôl strategaeth *Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad* Llywodraeth Cymru i weithio gyda’m Hadran i a Hybu Cig Cymru i lunio cyfundrefn gostau sy’n deg i ladd-dai bach yng Nghymru.

15. Bydd fy swyddogion yn gweithio’n agos gyda’r ASB a lladd-dai bach yng Nghymru i’w helpu i ddod o hyd i newidiadau – o ran cydymffurfio a/neu o ran arferion gwaith – a fydd yn eu galluogi i leihau cost rheolaethau hylendid cig ar eu safleoedd, ac felly’n lleihau’r agwedd hon ar eu costau gweithredu. Yn ogystal, byddaf yn parhau i weithio gyda’r ASB i ddatblygu sylfaen ar gyfer set fodern o reolaethau swyddogol sy’n fwy seiliedig ar risg.

16. Rwy'n croesawu awgrym yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig y dylai'r Pwyllgor newydd fwrw golwg ar hyn.

**Meysydd na lwyddodd y Pwyllgor Datblygu Gwledig i'w trafod**

**Gwasanaeth Cynghori Ffermwyr**

17. Yn y diwygiadau i'r PAC y cytunwyd arnynt ym mis Mehefin 2003 roedd newid yn ffocws o gynlluniau cymhorthdal ar sail cynhyrchu i Gynllun Taliad Sengl sy'n annog ffermwyr i ymateb i anghenion y farchnad a defnyddwyr. Rhaid i'r rheini sy'n hawlio'r Taliad Sengl gydymffurfio â safonau amgylcheddol, diogelwch bwyd, iechyd anifeiliaid a phlanhigion a lles anifeiliaid. Rwy'n ymrwymedig i Cyswllt Ffermio sy'n cefnogi busnesau ffermio a choedwigaeth i ddatblygu, parhau'n hyfyw a diwallu heriau'r dyfodol mewn ffordd gynaliadwy ac arloesol. Mae'r gwasanaeth yn cynnig strwythur cymorth i annog perchnogion ffermydd a choedwigoedd i wneud y gorau o'u busnesau ac ymchwilio i gyfleoedd i arallgyfeirio a chreu dyfodol mwy cynaliadwy.

18. Bydd y contractau Cyswllt Ffermio newydd o fis Medi 2011 ymlaen yn cynnig rhaglen trosglwyddo gwybodaeth o'r radd flaenaf i'r diwydiant yng Nghymru. Mae Cyswllt Ffermio yn annog cydweithredu ac mae nifer o grwpiau ffermwyr eisoes wedi'u sefydlu i gytuno ar gontractau cyflenwi uniongyrchol. Mae'r gwasanaeth mentora, a ddarperir o fewn Cynllun y Fferm Gyfan, yn rhoi hyblygrwydd i ffermwyr ddewis y gwasanaethau hynny sy'n berthnasol i'w busnesau. Mae'r opsiynau'n cynnwys cyllid a busnes, technegol, amgylcheddol, lles anifeiliaid, ac arallgyfeirio ac arloesi. Bydd fy swyddogion – ac rwy'n disgwyl i'n cyrff partner a'n rhanddeiliaid chwarae'u rhan – yn sicrhau bod ffermwyr yn parhau i dderbyn negeseuon am fanteision busnes y gwasanaeth Cyswllt Ffermio i sicrhau bod cynifer â phosibl ohonynt yn derbyn y gwasanaeth gwerthfawr hwn.

**Yr Ombwdsmon Archfarchnadoedd**

19. Bydd sefydlu Dyfarnydd y Cod Cyflenwi Bwydydd i orfodi'r Cod Ymarfer Cyflenwi Bwydydd yn gweithio ar hyd y gadwyn gyflenwi. Cyhoeddwyd y Bil Drafft ar 24 Mai ac rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ar hyn o bryd i sicrhau bod ystyriaeth lawn i fuddiannau Cymru. Er nad yw'r polisi cystadleuaeth wedi'i ddatganoli i Gymru, mae potensial i rôl y Dyfarnydd effeithio ar y swyddogaethau sydd wedi'u datganoli parthed datblygu bwyd a ffermio.

**Alun Davies AC**
**Y Dirprwy Weinidog dros Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd**